Ministry of Justice

# Gwasanaeth i rai sydd mewn perygl o golli eu cartref

**A ydych chi mewn perygl o golli eich cartref?**

**A ydych chi'n ansicr ynghylch eich opsiynau?**



Gallwch nawr gael cymorth cyfreithiol am ddim drwy'r Gwasanaeth Cyngor i rai sydd mewn perygl o golli eu cartref. Gall cael y cymorth hwn cyn gynted â phosibl eich helpu i ddatrys eich sefyllfa.

Os ydych wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig bod rhywun yn ceisio meddiant o'ch cartref, mae gennych hawl yn awr i gael cyngor cyfreithiol am ddim.

Bydd arbenigwr tai yn siarad â chi i ddeall pam y gallech fod mewn perygl o golli'ch cartref a bydd yn esbonio'ch opsiynau. Efallai y bydd yr arbenigwr tai yn gallu darparu cyngor cyfreithiol ar y canlynol:

- Troi allan yn anghyfreithlon
- Ôl-ddyledion rhent
- Ôl-ddyledion morgais
- Problemau gyda thalu budd-daliadau lles
- Pryderon ynghylch dyledion
- Diffyg cynnal a chadw a phroblemau eraill gyda chyflwr tai

Ac os bydd angen ichi ddod i wrandawiad llys,efallai y bydd yn gallu eich cynrychioli.

Gellir cael rhagor o wybodaeth a dod o hyd i arbenigwr tai yma:

**gov.uk/get-housing-loss-advice**

Neu sganiwch y cod QR isod:

## Cymorth cyfreithiol yn rhad ac am ddim heddiw.